# Adroddiad Ystadegol Blynyddol Bron Brawf Cymru 2021-22




Cyhoeddiad Ystadegau Swyddogol Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Amdanom ni

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.

Rydym yn rhan o'r GIG ac yn adrodd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

Ein gweledigaeth yw sicrhau Cymru iachach, hapusach a thecach. Rydym yn gweithio yn lleol, yn genedlaethol, gyda'n partneriaid ac ar draws cymunedau yn y meysydd canlynol:

**Diogelu iechyd** — darparu gwybodaeth a chyngor a chymryd camau i ddiogelu pobl rhag clefyd trosglwyddadwy a pheryglon amgylcheddol

**Gofal sylfaenol, cymunedol ac integredig** — cryfhau effaith iechyd y cyhoedd drwy bolisi, comisiynu, cynllunio a darparu gwasanaethau

**Microbioleg** — darparu rhwydwaith o wasanaethau microbioleg sy'n cynorthwyo diagnosis o glefydau heintus a'u rheoli

**Diogelu** — darparu arbenigedd a chyngor strategol i helpu i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed

**Sgrinio** — darparu rhaglenni sgrinio sy'n cynorthwyo canfod clefydau'n gynnar, eu hatal a'u trin

**Gwybodaeth iechyd** — dadansoddi data iechyd y cyhoedd, dod o hyd i dystiolaeth a rheoli gwybodaeth

**Gwella ansawdd a diogelwch cleifion y GIG** — darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r GIG i wella canlyniadau cleifion

**Polisi, ymchwil a datblygu rhyngwladol** — dylanwadu ar bolisi, cynorthwyo ymchwil a chyfrannu at ddatblygu iechyd yn rhyngwladol

**Gwella iechyd** — gweithio ar draws asiantaethau a darparu gwasanaethau i'r boblogaeth er mwyn gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd

### Rhagor o wybodaeth


Gwefan: icc.gig.cymru
E-bost: ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk
Twitter: @IechydCyhoeddus
Facebook: facebook.com/iechydcyhoedduscymru

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb manwl o wybodaeth am waith a wnaed gan y Rhaglen Sgrinio'r Fron yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn o fis Ebrill 2021 tan ddiwedd mis Mawrth 2022.

## Manylion Cyhoeddi:

**Teitl:** Adroddiad Ystadegol Blynyddol Bron Brawf Cymru 2021-22
**Dyddiad:** Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Awst 2024
**ISBN:** 978-1-83766-446-7

## I gael rhagor o wybodaeth am yr adroddiad hwn cysylltwch â:

Helen Clayton, Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data,
Yr Is-adran Gwybodeg, Llawr 6, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ
Ffôn: 029 2010 4405

E-bost: screening.information@wales.nhs.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg heb oedi / We welcome correspondence and phone calls in Welsh. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg yn ddi-oed.

## Datganiad Sicrhau Ansawdd

Mae cofnodion sgrinio data yn cael eu diweddaru’n barhaus. Mae’r cronfeydd data a ddefnyddir gan Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddaru’n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu dileu (archifo). Gallai hyn ymwneud â phan fydd unigolyn wedi’i nodi fel rhywun y mae angen gwasanaeth sgrinio arno; wedi cael canlyniadau sy'n rhaid eu cofnodi, neu â newid statws ac nad oes angen sgrinio arno mwyach yn y drefn honno. Derbynnir data o nifer fawr o ffynonellau gwahanol sy’n amrywio o ran cywirdeb a chyflawnder. Mae'r Adran Sgrinio yn gwirio data ar gyfer cywirdeb drwy gymharu setiau data – er enghraifft data practis meddyg teulu – ac yn cywiro'r data codio lle y bo'n bosibl. Dylid nodi y ceir oedi weithiau o ran casglu data – er enghraifft efallai na fydd person yn cofrestru gyda'i feddyg teulu ar unwaith os bydd yn symud cyfeiriad. Felly bydd yr oedi hwn yn effeithio ar gyflawnder y data yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Yn ogystal, dylai’r darllenydd fod yn ymwybodol bod y data yn cael eu diweddaru’n barhaus a gall fod mân addasiadau i’r rhifau a ddyfynnir yn y ddogfen hon o’r naill flwyddyn i’r llall yn sgil diweddaru’r data.

© 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/ ar yr amod y caiff hynny ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.☐☐

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae’r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a’r diwygio yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

This document is also available in English.

# Cynnwys

1 **Cyflwyniad**......7
1.1 'Negeseuon allweddol' i fenywod ......7
1.2 Cyflawni'r rhaglen......7
1.3 Llwybr sgrinio ......8

2 **Penawdau Ystadegol** ......9

3 **Data** ......10
3.1 Cwmpas ......10
3.2 Gweithgarwch Sgrinio ......11
3.3 Gwahoddiad a chanran y rhai a gafodd eu sgrinio ......12
3.4 Asesu......15
3.4.1 Atgyfeirio ar gyfer asesu ......15
3.4.2 Triniaethau biopsi asesu......16
3.5 Canfod Canser ......17
3.5.1 Cyfradd canfod canser ......17
3.5.2 Math a maint y canser ......20

4 **Diffiniadau**......23

5 **Tîm cynhyrchu**......24

## Tablau a Graffiau

**Graff 1:** % cwmpas profion sgrinio'r fron, menywod 53-70 oed, yn ôl bwrdd iechyd preswyl, 2020-2022......11

**Graff 2:** Gweithgarwch sgrinio 10 mlynedd, pob oedran, 2012-13 i 2021-22......12

**Graff 3:** % y rhai a gafodd eu sgrinio 10 mlynedd o wahoddiadau sgrinio'r fron rheolaidd 50-70 oed, 2012-13 i 2021-22......13

**Graff 4:** % y rhai a gafodd eu sgrinio yn ôl math o wahoddiad, 50-70 oed, 2019-20 i 2021-22......14

**Graff 5:** % y rhai a gafodd eu sgrinio yn ôl uned sgrinio, 50-70 oed, 2019-20 i 2021-22......15

**Tabl 1:** Atgyfeirio i gael asesiad, pob oedran, yn ôl math o wahoddiad/atgyfeirio, 2019-20 i 2021-22………………………………………16

**Tabl 2:** Atgyfeirio i gael triniaethau biopsi asesu, pob oedran, yn ôl math o wahoddiad/atgyfeirio, 2019-20 i 2021-22……………………………………………17

**Tabl 3:** Cyfradd canfod canser (fesul 1000 a sgriniwyd), pob oedran, yn ôl math o wahoddiad/atgyfeirio, 2019-20 i 2021-22………………………………18

**Graff 6:** Cyfradd canfod canser fesul 1000 a sgriniwyd, yn ôl math o wahoddiad, yn ôl uned sgrinio, 2019-20 i 2021-22…………………………………19

**Graff 7:** Cyfradd canfod canser (fesul 1000 a sgriniwyd), 2012-13 i 2021-22, yn ôl grŵp oedran…………………………………………………………………………19

**Tabl 4:** Canserau ymledol a ganfuwyd, pob oedran, yn ôl math o wahoddiad/atgyfeirio, 2019-20 i 2021-22…………………………………………………………………20

**Tabl 5**: Maint y canserau ymledol a ganfuwyd, pob oedran, yn ôl math o wahoddiad/atgyfeirio, 2019-20 i 2021-22…………………………………………21

**Tabl 6:** Canserau anymledol/micro-ymledol a ganfuwyd, pob oedran, yn ôl math o wahoddiad/atgyfeirio, 2019-20 i 2021-22……………………………22

# 1 Cyflwyniad

Nod rhaglen sgrinio'r fron yw lleihau marwolaeth o ganser y fron. Caiff menywod 50 i 70 oed sy'n byw yng Nghymru, ac wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu, eu gwahodd am famogram (pelydr-x o'r fron) bob tair blynedd.

Mae Bron Brawf Cymru wedi'i rannu yn dair is-adran ddaearyddol gyda chanolfannau yng Nghaerdydd, Abertawe, Llandudno a Wrecsam. Mae 11 o unedau symudol yn gweithio ledled Cymru i ddarparu sgrinio lleol i fenywod sy'n byw yn bell o ganolfan, gan ymweld â thros 100 o safleoedd ym mhob rownd tair blynedd o sgrinio.

## 1.1 'Negeseuon allweddol' i fenywod

- Mae sgrinio'r fron yn lleihau eich risg o farw o ganser y fron
- Gwahoddir menywod 50 i 70 oed i gael prawf pelydr-x o'r fron bob tair blynedd. Nid yw menywod dros 70 oed yn cael eu gwahodd yn rheolaidd am nad oes tystiolaeth o ostyngiad mewn marwolaethau drwy sgrinio menywod yn yr ystod oedran hon
- Gall sgrinio ddod o hyd i ganserau pan maent yn rhy fach i'w gweld neu eu teimlo. Mae canfod a thrin canser yn gynnar yn rhoi'r cyfle gorau i chi oroesi
- Mae profion sgrinio'r fron yn brawf GIG am ddim a gynhelir mewn canolfannau sgrinio ac unedau symudol hygyrch ledled Cymru
- Os byddwch yn sylwi ar newid yn eich bronnau, ewch i weld eich meddyg teulu ar unwaith
- Bydd sgrinio yn methu rhai canserau ac ni ellir gwella rhai canserau
- Eich dewis chi yw cymryd rhan mewn sgrinio'r fron. Darllenwch y daflen wybodaeth yn ofalus i'ch helpu i wneud eich penderfyniad

## 1.2 Cyflawni'r rhaglen

Mae Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am reoli, cyflawni a sicrhau ansawdd y rhaglen sgrinio'r fron yng Nghymru ac mae ganddi Gyfarwyddwr Sgrinio ac Ymgynghorydd mewn Iechyd Cyhoeddus arweiniol ar gyfer y rhaglenni sgrinio am ganser. Mae Bron Brawf Cymru yn cyflogi Pennaeth Rhaglen, Llawfeddyg Sicrhau Ansawdd (SA),

Radiolegydd SA, Patholegydd SA a Rheolwr Rhaglen Llwybr Sgrinio Cymru Gyfan sy'n arwain tîm gweinyddol llwybrau, a cheir cymorth ysgrifenyddol meddygol. Ceir tîm clinigol amlddisgyblaethol arbenigol mawr, gan gynnwys cymorth clinigau, nyrsys gofal y fron, nyrsys clinigau, radiograffyddion, radiograffyddion ymgynghorol, clinigwyr y fron, llawfeddygon y fron a radiolegwyr ymgynghorol, sy'n darparu gwasanaeth sgrinio'r fron.

Caiff menywod 50-70 oed sy'n byw yng Nghymru, ac sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu, gynnig sgrinio naill ai mewn uned symudol yn eu hardal neu mewn un o'r canolfannau yn Llandudno, Wrecsam, Abertawe neu Gaerdydd.

Yn ystod 2021 i 2022 roedd rhaglen sgrinio'r fron yn gweithio i adfer o effaith y pandemig a'r oedi dros dro ym mis Mawrth 2020 yn ystod camau cyntaf y pandemig. Roedd y rhaglen hefyd yn gweithio yn ystod y cyfnod hwn i osod offer delweddu newydd llawn yn lle'r hen offer a oedd yn cynnwys offer digidol i ganolfannau a safleoedd symudol newydd.

## 1.3 Llwybr sgrinio

Gwahoddir menywod rhwng 50 a 70 oed i gael prawf sgrinio'r fron bob tair blynedd. Mae'r broses wahodd yn dibynnu ar y feddygfa y cofrestrwyd â hi Bydd Bron Brawf Cymru yn gwahodd pob menyw i gael ei phrawf sgrinio'r fron cyntaf cyn ei phen-blwydd yn 53 oed. Weithiau mae hyn yn golygu y bydd rhai menywod yn cael eu gwahodd ychydig cyn iddynt gyrraedd 50 oed.

Bydd menywod rhwng 50 a 70 oed sy'n cael profion dilynol mewn clinig y fron mewn ysbyty yn dal i gael gwahoddiad gan Bron Brawf Cymru.

Nid yw menywod dros 70 oed yn cael eu gwahodd yn rheolaidd am nad oes tystiolaeth o ostyngiad mewn marwolaethau drwy sgrinio menywod yn yr ystod oedran hon.

Mae menywod sy'n mynd i gael eu sgrinio yn cael mamogram (prawf pelydr-x o'r fron). Os arsylwir unrhyw annormaleddau ar y mamogram, gwahoddir y fenyw i glinig asesu er mwyn cael rhagor o brofion.

Ceir rhagor o wybodaeth am y rhaglen a chopïau o adroddiadau ystadegol blaenorol ar www.breasttestwales.wales.nhs.uk

# 2 Penawdau Ystadegol

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu gweithgarwch yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022. Mae'r holl ddata blynyddol cymharol yn ymwneud â blynyddoedd ariannol.

- Ar 31 Mawrth 2022, roedd cwmpas y menywod 53-70 oed yn 56.5%, o gymharu â 58.4% ar yr un adeg yn 2021 a 71.7% yn 2020.

- Gweithgarwch sgrinio: cafodd ychydig dros 108,000 o fenywod 49 oed a throsodd eu sgrinio yn 2021-22, o gymharu â thua 47,000 yn 2020-21.

- Gwahoddiad a chanran y rhai a gafodd eu sgrinio: yn 2021-22 cafodd bron 132,000 o fenywod 50-70 oed eu gwahodd i gael eu sgrinio, o gymharu â 64,000 yn 2020-21. Canran y rhai a gafodd eu sgrinio ar gyfer y grŵp hwn oedd 70.0%, o gymharu â 67.1% yn 2020-21 a 68.9% yn 2019-20.

- Asesu: Roedd canran y rhai a gafodd eu hatgyfeirio am asesiad yn 4.8% o'r rhai a gafodd eu sgrinio yn 2021-22. Mae hyn yn cymharu â 5.4% yn 2020-21 a 4.4% yn 2019-20.

- Canfod canser: cafodd cyfanswm o 1,121 o ganserau eu canfod ymhlith menywod 49 oed a throsodd a gafodd eu sgrinio. Mae hyn yn cynrychioli 10.4 o achosion fesul 1,000 o fenywod a sgriniwyd. O gymharu â hyn, canfuwyd 484 o ganserau yn 2020-21 (10.4 fesul 1,000 a sgriniwyd) a chanfuwyd 1,050 yn 2019-20 (8.7 fesul 1,000 a sgriniwyd).

- O’r 1,121 o ganserau a ganfuwyd yn 2021-22, roedd 81.7% (916) yn friwiau ymledol. Yn 2020-21, roedd 80.2% (388) yn ymledol ac yn 2019-20 roedd 83.1% (873) yn ymledol.

- Yn 2021-22, cafodd 42.7% (391) o'r canserau ymledol a ganfuwyd eu dosbarthu fel rhai bach (llai na 15mm o ran maint). Mae hyn yn cymharu â 51.5% (200) yn 2020-21 a 50.3% (439) yn 2019-20.

# 3 Data

## 3.1 Cwmpas

Mae cwmpas wedi'i ddiffinio fel y ganran o fenywod sy'n preswylio ac yn gymwys i gael prawf sgrinio'r fron ar adeg benodol, sydd wedi cael eu sgrinio o fewn y tair blynedd diwethaf. Mae menywod anghymwys yn cynnwys y rhai sydd wedi cael mastectomi dwyochrol.


Gall nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio a hyd y rownd (gwahoddiadau a roddwyd o fewn 36 mis i'r prawf sgrinio blaenorol) effeithio ar gwmpas. I roi amser i'r holl fenywod gael eu gwahoddiad cyntaf, mae'r cwmpas yn cael ei gyflwyno ar gyfer yr ystod oedran 53-70 oed. Ar 31 Mawrth 2022, roedd cwmpas y menywod 53-70 oed yn 56.5%, o gymharu â 58.4% ar yr un adeg yn 2020 a 71.7% yn 2020.
Yn dilyn yr oedi dros dro sgrinio'r fron oherwydd pandemig COVID, cytunwyd ar ddull sy'n seiliedig ar risg o ailddechrau'r rhaglen ym mis Ebrill 2020, gan weld menywod â'r risg uchaf yn cael eu gwahodd gyntaf, pan ailddechreuodd y rhaglen sgrinio ym mis Awst 2020.

Roedd gostyngiad sylweddol yn y capasiti wrth symud i 2021, gyda 60% o'r capasiti cyn Covid ar gael wrth i'r rhaglen weithredu trefniadau cadw pellter cymdeithasol i gyfranogwyr a gweithdrefnau dihalogi newydd. Parhaodd y gostyngiad hwn mewn capasiti i ganol 2021.

Canolbwyntiodd y cynllun adfer ar weithredu capasiti ychwanegol dros y cyfnod hwn i atal hyd y rownd rhag cynyddu ymhellach. Lle y bo'n bosibl cynhaliwyd gweithgarwch ychwanegol ar benwythnosau i gynyddu nifer y slotiau a oedd ar gael i atal llithriant pellach ac ymestyn hyd safle'r uned sgrinio'r fron symudol.

Cafodd gweithgarwch canolfannau sefydlog ei adolygu a'i optimeiddio lle y bo'n bosibl. Defnyddiwyd gwahoddiadau apwyntiad agored i wneud y defnydd gorau posibl o slotiau apwyntiad yn y garfan o fenywod yn y rownd bennaf.

**Graff 1:** Canran (%) cwmpas profion sgrinio'r fron, menywod 53-70 oed, yn ôl bwrdd iechyd preswyl, 2020-2022





## 3.2 Gweithgarwch Sgrinio

Mae menywod yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i sgrinio'r fron os ydynt rhwng 50 a 70 oed (neu 49 oed os byddant yn 50 oed yn ystod y flwyddyn y mae eu practis yn cael ei sgrinio). Mae nifer y rhai a gafodd eu sgrinio hefyd yn cynnwys menywod sy'n hŷn na 70 oed sydd wedi cysylltu â'r gwasanaeth i wneud cais am sgrinio. Mae’n bwysig nodi nad oes tystiolaeth gadarn bod sgrinio rheolaidd yn arbed bywydau yn y grŵp oedran hŷn hwn. Dylai pob menyw sy'n sylwi ar newid yn ei bronnau gysylltu â'i meddyg teulu ar unwaith.

Er gwaethaf y cyfyngiadau ar gapasiti'r gwasanaeth oherwydd y pandemig dychwelodd nifer y menywod a wahoddwyd a'u sgrinio yn agos at y niferoedd arferol yn ystod 2021-22 wrth i'r rhaglen ddechrau adfer o effaith y pandemig Parhaodd yr ymdrechion adfer dros y cyfnod hwn i sicrhau nifer uchaf posibl y gwahoddiadau a anfonwyd a nifer y menywod a sgriniwyd. Cafodd 108,191 o fenywod 49 oed a throsodd eu sgrinio yn 2021-22.

**Graff 2:** Cyfanswm y gweithgarwch sgrinio 10 mlynedd, pob oedran, 2012-13 i 2021-22





## 3.3 Gwahoddiad a chanran y rhai a gafodd eu sgrinio

Cafodd 131,611 o fenywod 50-70 oed eu gwahodd i gael eu sgrinio yn 2021-22.

Yn 2021-22 canran y rhai a gafodd eu sgrinio oedd 70.0%, o gymharu â 67.1% yn 2020-21 a 68.9% yn 2019-20. Dyma'r tro cyntaf mewn 5 mlynedd y mae'r safon ofynnol wedi'i chyrraedd. Mae Graff 3 yn dangos canran y rhai a gafodd eu sgrinio ymhlith y boblogaeth a wahoddwyd yn rheolaidd.

**Graff 3:** Canran (%) y rhai a gafodd eu sgrinio 10 mlynedd o wahoddiadau sgrinio'r fron rheolaidd, 50-70 oed, 2012-13 i 2021-22





Gall canran y rhai a gafodd eu sgrinio amrywio yn ôl y math o wahoddiad. Gellir is-rannu gwahoddiadau rheolaidd i mewn i'r grwpiau canlynol:

- Gwahoddiad cyntaf
- Gwahoddiad i'r rhai na fynychodd yn flaenorol
- Gwahoddiad i'r rhai sy'n mynychu'n rheolaidd
- Gwahoddiad i'r rhai nad ydynt wedi mynychu ers dros dair blynedd

Fel y dengys Graff 4, mae canran y rhai a gafodd eu sgrinio ar ei huchaf ymhlith y rhai sy'n mynychu'n rheolaidd (88.3%) ac isaf ymhlith y rhai na fynychodd yn flaenorol (18.5%). Mae Bron Brawf Cymru yn darparu deunydd darllen gyda'i wahoddiadau i gynorthwyo menywod i wneud dewis gwybodus pan fyddant yn penderfynu a ydynt am fynd i gael prawf sgrinio'r fron ai peidio. Ym mhob grŵp heblaw am y gwahoddiad cyntaf, mae canran y rhai a gafodd eu sgrinio yn uwch na'r ddwy flynedd flaenorol. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn y rhaglen i ystyried sut y gall negeseuon testun a chyfryngau cymdeithasol digidol gefnogi'r defnydd o sgrinio'r fron.


**Graff 4:** Canran (%) y rhai a gafodd eu sgrinio yn ôl math o wahoddiad, 50-70 oed, 2019-20 i 2021-22




O ran effaith ranbarthol, mae canran y rhai a gafodd eu sgrinio eleni ar ei huchaf yn Ne-orllewin Cymru ac mae'r ardal o fewn y safon, ond mae Gogledd a De-ddwyrain Cymru yn brin o'r safon (Graff 5).

Mae gweithgorau wedi cael eu sefydlu yn yr Adran Sgrinio a'r Rhaglen Sgrinio'r Fron i asesu a gweithredu ymyriadau i gefnogi'r defnydd o sgrinio'r fron. Mae mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ddatblygu ymyriadau sy'n lleihau anghydraddoldebau ac yn gwella iechyd eu poblogaeth darged.

**Graff 5:** Canran (%) y rhai a gafodd eu sgrinio yn ôl uned sgrinio, 50-70 oed, 2019-20 i 2021-22




## 3.4 Asesu

### 3.4.1 Atgyfeirio ar gyfer asesu

Os oes unrhyw annormaleddau sy'n awgrymu bod canser yn bresennol yn cael eu gweld ar y mamogram sgrinio, bydd y fenyw yn cael ei galw yn ôl i glinig asesu ar gyfer profion asesu pellach. Disgwylir y bydd mwy o fenywod yn cael eu galw yn ôl am asesiad yn dilyn eu prawf sgrinio cyntaf (y sgrinio pennaf) am nad oes delweddau blaenorol i lywio'r penderfyniad i alw yn ôl.

Mae'n debygol bod cyfraddau atgyfeirio i fenywod sydd wedi'u sgrinio'n flaenorol (y sgrinio digwyddiad) yn debygol o fod yn is oherwydd byddant y cyflwyno gydag afiechyd mwy diweddar a gall yr hanes sgrinio gynorthwyo'r sawl sy'n darllen y ddelwedd i ddehongli'r ddelwedd. (Tabl 1).

**Tabl 1:** Atgyfeirio i gael asesiad, pob oedran, yn ôl math o wahoddiad/atgyfeirio, 2019-20 i 2021-22

| | 2019-20 | | | 2020-21 | | | 2021-22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Sgrinio | Atgyfeirio | % | Sgrinio | Atgyfeirio | % | Sgrinio | Atgyfeirio | % |
| **Cyfanswm** | **120,662** | **5258** | **4.4** | **46,723** | **2531** | **5.4** | **108,191** | **5141** | **4.8** |
| **Sgrinio Pennaf** | **20,664** | **1580** | **7.6** | **12,732** | **978** | **7.7** | **19,641** | **1379** | **7.0** |
| **Sgrinio Digwyddiad** | **90,292** | **3126** | **3.5** | **31,788** | **1373** | **4.3** | **76,460** | **3057** | **4.0** |
| | | | | | | | | | |
| Gwahoddiad cyntaf ar gyfer sgrinio rheolaidd | 16,455 | 1286 | 7.8 | 10,806 | 851 | 7.9 | 16,402 | 1141 | 7.1 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai na fynychodd yn flaenorol | 4209 | 294 | 7.0 | 1926 | 127 | 6.6 | 3599 | 238 | 6.6 |
| Gwahoddiad rheolaidd i fynychwyr blaenorol, sgriniad diwethaf o fewn 5 mlynedd | 85,772 | 2910 | 3.4 | 29,984 | 1254 | 4.2 | 72,341 | 2823 | 3.9 |
| Gwahoddiad rheolaidd i fynychwyr blaenorol, sgriniad diwethaf dros 5 mlynedd yn flaenorol | 4520 | 216 | 4.8 | 1804 | 119 | 6.6 | 4119 | 234 | 5.7 |
| Galw yn ôl yn gynnar | 50 | 50 | 100 | 42 | 42 | 100 | 34 | 34 | 100 |
| Hunanatgyfeiriadau/atgyfeiriadau meddygon teulu | 9,656 | 502 | 5.2 | 2161 | 138 | 6.4 | 12,056 | 671 | 5.6 |

## 3.4.2 Triniaethau biopsi asesu

Fel rhan o'r broses asesu cynhelir rhagor o famogramau ac archwiliad o'r fron. Os erys pryder o ganser yn dilyn y profion pellach hyn a sgan uwchsain, yna bydd biopsi yn ofynnol er mwyn gwneud diagnosis. Mae'r rhan fwyaf o'r biopsïau'n cael eu cynnal mewn clinig asesu, ac maent yn defnyddio techneg nodwydd lydan. Mae nifer bach iawn o allsugnadau o'r fron â nodwydd fân yn cael eu gwneud bob blwyddyn ond mae hyn fel arfer yn ogystal â chael sampl o'r feinwe. Mae angen biopsi llawfeddygol agored ar nifer bach o fenywod er mwyn cyflawni diagnosis diffiniol. Mae mabwysiadu biopsi gyda chymorth gwactod ar gyfer rhai briwiau ar draws y rhaglen wedi arwain at ostyngiad o ran nifer y rhai sy'n cael eu hatgyfeirio am driniaethau biopsi agored.

Mae'r triniaethau nodwydd yn cael eu gwneud mewn un o unedau Bron Brawf Cymru yn bennaf ac mae biopsi agored yn llawdriniaeth lawfeddygol sy'n ei gwneud yn ofynnol mynd i'r ysbyty. O’r 5,141 o fenywod a atgyfeiriwyd am asesiad yn 2021-22, cafodd 44.2% (2274) allsugnad â nodwydd fân a/neu nodwydd lydan, ac roedd angen biopsi agored ar 0.9% (44) ohonynt (Tabl 2).

**Tabl 2:** Atgyfeirio i gael asesiad a thriniaethau biopsi, pob oedran, yn ôl math o wahoddiad/atgyfeirio, 2019-20 i 2021-22

| | **2019-20** | | | | | **2020-21** | | | | | **2021-22** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Atgyfeirio** | **Bx Nodwydd** | **%** | **Bx Agored** | **%** | **Atgyfeirio** | **Bx Nodwydd** | **%** | **Bx Agored** | **%** | **Atgyfeirio** | **Bx Nodwydd** | **%** | **Bx Agored** | **%** |
| **Cyfanswm** | **5258** | **2008** | **38.2** | **37** | **0.7** | **2531** | **1018** | **40.2** | **31** | **1.2** | **5141** | **2274** | **44.2** | **44** | **0.9** |
| **Sgrinio Pennaf** | **1580** | **580** | **36.7** | **16** | **1.0** | **978** | **411** | **42.0** | **16** | **1.6** | **1379** | **609** | **44.2** | **13** | **0.9** |
| **Sgrinio Digwyddiad** | **3126** | **1196** | **38.3** | **17** | **0.5** | **1373** | **547** | **39.8** | **14** | **1.0** | **3057** | **1339** | **43.8** | **24** | **0.8** |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwahoddiad cyntaf ar gyfer sgrinio rheolaidd | 1286 | 463 | 36.0 | 15 | 1.2 | 851 | 353 | 41.5 | 14 | 1.6 | 1141 | 494 | 43.3 | 12 | 1.1 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai na fynychodd yn flaenorol | 294 | 117 | 39.8 | 1 | 0.3 | 127 | 58 | 45.7 | 2 | 1.6 | 238 | 115 | 48.3 | 1 | 0.4 |
| Gwahoddiad rheolaidd i fynychwyr blaenorol, sgriniad diwethaf o fewn 5 mlynedd | 2910 | 1109 | 38.1 | 15 | 0.5 | 1254 | 489 | 39.0 | 14 | 1.1 | 2823 | 1215 | 43.0 | 21 | 0.7 |
| Gwahoddiad rheolaidd i fynychwyr blaenorol, sgriniad diwethaf dros 5 mlynedd yn flaenorol | 216 | 87 | 40.3 | 2 | 0.9 | 119 | 58 | 48.7 | 0 | 0 | 234 | 124 | 53.0 | 3 | 1.3 |
| Galw yn ôl yn gynnar | 50 | 6 | 12.0 | 0 | 0 | 42 | 6 | 14.3 | 1 | 2.4 | 34 | 1 | 2.9 | 1 | 2.9 |
| Hunanatgyfeiriadau/atgyfeiriadau meddygon teulu | 502 | 226 | 45.0 | 4 | 0.8 | 138 | 54 | 39.1 | 0 | 0 | 671 | 325 | 48.4 | 6 | 0.9 |

## 3.5 Canfod Canser

### 3.5.1 Cyfradd canfod canser

Cafodd cyfanswm o 1121 o ganserau eu canfod ymhlith menywod 49 oed a throsodd a gafodd eu sgrinio yn ystod y cyfnod mis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022. Mae hyn yn cynrychioli 10.4 o achosion fesul 1,000 o fenywod a sgriniwyd. O gymharu â hyn, canfuwyd 484 o ganserau yn 2020-21 (10.4 fesul 1,000 a sgriniwyd) a chanfuwyd 1,050 yn 2019-20 (8.7 fesul 1,000 a sgriniwyd).


Y gyfradd canfod canser ymhlith menywod yn ystod y sgrinio pennaf oedd 9.4 fesul 1,000 a sgriniwyd, o gymharu â 10.1 fesul 1,000 yn 2020-21 a 9.0 fesul 1,000 yn 2019-20. Ar gyfer sgrinio digwyddiad, y gyfradd oedd 9.9 fesul 1,000 a sgriniwyd yn 2021-22, 10.3 yn 2020-21 a 7.9 yn 2019-20 (Tabl 3).

**Tabl 3:** Cyfradd canfod canser (fesul 1,000 a sgriniwyd), pob oedran, yn ôl math o wahoddiad/atgyfeirio, 2019-20 i 2021-22

| | **2019-20** | | | **2020-21** | | | **2021-22** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Sgriniwyd** | **Canserau** | **Cyfradd** | **Sgriniwyd** | **Canserau** | **Cyfradd** | **Sgriniwyd** | **Canserau** | **Cyfradd** |
| **Cyfanswm** | **120,661** | **1050** | **8.7** | **46,722** | **484** | **10.4** | **108,179** | **1121** | **10.4** |
| **Sgrinio Pennaf** | **20,664** | **186** | **9.0** | **12,732** | **128** | **10.1** | **19,641** | **184** | **9.4** |
| **Sgrinio Digwyddiad** | **90,292** | **712** | **7.9** | **31,788** | **327** | **10.3** | **76,460** | **754** | **9.9** |
| | | | | | | | | | |
| Gwahoddiad cyntaf ar gyfer sgrinio rheolaidd | 16,455 | 144 | 8.8 | 10,806 | 106 | 9.8 | 16,042 | 137 | 8.5 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai na fynychodd yn flaenorol | 4209 | 42 | 10.0 | 1926 | 22 | 11.4 | 3599 | 47 | 13.1 |
| Gwahoddiad rheolaidd i fynychwyr blaenorol, sgriniad diwethaf o fewn 5 mlynedd | 85,772 | 663 | 7.7 | 29,984 | 296 | 9.9 | 72,341 | 681 | 9.4 |
| Gwahoddiad rheolaidd i fynychwyr blaenorol, sgriniad diwethaf dros 5 mlynedd yn flaenorol | 4520 | 49 | 10.8 | 1804 | 31 | 17.2 | 4119 | 73 | 17.7 |
| Galw yn ôl yn gynnar | 50 | 4 | 80.0 | 42 | 0 | 0 | 34 | 1 | 29.4 |
| Hunanatgyfeiriadau/ atgyfeiriadau meddygon teulu | 9656 | 148 | 15.3 | 2161 | 29 | 13.4 | 12,044 | 182 | 15.1 |


Mae archwiliad o gyfraddau canfod canser ar lefel uned sgrinio (Graff 6) yn dangos cynnydd cyffredinol yng Ngogledd a De-orllewin Cymru ond gostyngiad yn y De-ddwyrain. Gellir priodoli'r cynnydd a'r gostyngiad hyn i gyfraddau ymhlith y menywod yn y rownd bennaf.

**Graff 6:** Cyfradd canfod canser fesul 1,000 a sgriniwyd, yn ôl math o wahoddiad, yn ôl uned sgrinio, 2019-20 i 2021-22




Mae Graff 7 yn plotio cyfraddau canfod canser dros gyfnod o 10 mlynedd ac yn dangos sut mae achosion o ganser y fron yn uwch yn gyffredinol ymhlith grwpiau oedran hŷn. Yn 2021-22 y gyfradd canfod canser ar gyfer menywod 50-54 oed oedd 6.9 fesul 1,000 a sgriniwyd, gan godi i 15.1 fesul 1,000 yn y grŵp oedran 65-70 oed.

**Graff 7:** Cyfradd canfod canser (fesul 1,000 a sgriniwyd), 2012-13 i 2021-22, yn ôl grŵp oedran



## 3.5.2 Math a maint y canser

Mae'r achosion o ganser y fron a nodwyd wedi'u disgrifio mewn dau grŵp.

Mae canser ymledol yn un sydd wedi lledu i feinwe iach y fron o amgylch y canser. Mae canser nad yw'n ymledol neu ficro-ymledol wedi'i gynnwys yn nwythellau a llabedynnau'r fron neu efallai eu bod wedi dechrau lledu ond o swm bach iawn (llai nag 1mm) yn unig.

Yn 2021-22, roedd 81.7% o'r canserau a ganfuwyd mewn menywod a sgriniwyd yn ymledol, o gymharu ag 80.2% yn 2020-21 ac 83.1% yn 2019-20 (Tabl 4). Roedd y canserau ymledol sydd yn gyffredinol yn rhy fach i'w teimlo (llai na 15mm) yn cyfrif am 42.7% o'r holl ganserau ymledol a ganfuwyd yn 2021-22 (Tabl 5). Mae hyn yn cymharu â 51.5% y llynedd a 50.3% yn 2019-20.

Roedd clefyd anymledol neu ficro-ymledol yn cyfrif am 18.3% o'r holl ganserau a ganfuwyd yn 2021-22, ac yn 2020-21 roeddent yn cyfrif am 19.8% ac yn 2019-20 roeddent yn cyfrif am 16.9% (Tabl 6).

**Tabl 4:** Canserau ymledol a ganfuwyd, pob oedran, yn ôl math o wahoddiad/atgyfeirio, 2019-20 i 2021-22

| | 2019-20 | | | 2020-21 | | | 2021-22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Canserau** | **Ymledol** | **%** | **Canserau** | **Ymledol** | **%** | **Canserau** | **Ymledol** | **%** |
| **Cyfanswm** | **1050** | **873** | **83.1** | **484** | **388** | **80.2** | **1121** | **916** | **81.7** |
| **Sgrinio Pennaf** | **186** | **149** | **80.1** | **128** | **97** | **75.8** | **184** | **150** | **81.5** |
| **Sgrinio Digwyddiad** | **712** | **586** | **82.3** | **327** | **268** | **82.0** | **754** | **605** | **80.2** |
| | | | | | | | | | |
| Gwahoddiad cyntaf ar gyfer sgrinio rheolaidd | 144 | 111 | 77.1 | 106 | 77 | 72.6 | 137 | 107 | 78.1 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai na fynychodd yn flaenorol | 42 | 38 | 90.5 | 22 | 20 | 90.9 | 47 | 43 | 91.5 |
| Gwahoddiad rheolaidd i fynychwyr blaenorol, sgriniad diwethaf o fewn 5 mlynedd | 663 | 546 | 82.4 | 296 | 242 | 81.8 | 681 | 544 | 79.9 |
| Gwahoddiad rheolaidd i fynychwyr blaenorol, sgriniad diwethaf dros 5 mlynedd yn flaenorol | 49 | 40 | 81.6 | 31 | 26 | 83.9 | 73 | 61 | 83.6 |
| Galw yn ôl yn gynnar | 4 | 3 | 75.0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 100 |
| Hunanatgyfeiriadau/atgyfeiriadau meddygon teulu | 148 | 135 | 91.2 | 29 | 23 | 79.3 | 182 | 160 | 87.9 |

**Tabl 5:** Maint y canserau ymledol a ganfuwyd, pob oedran, yn ôl math o wahoddiad/atgyfeirio, 2019-20 i 2021-22

| | 2019-20 | | | | | 2020-21 | | | | | 2021-22 | | | | |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| | **Cyfanswm a wahoddwyd** | **<15 mm** | **%** | **15+ mm** | **%** | **Cyfanswm a wahoddwyd** | **<15 mm** | **%** | **15+ mm** | **%** | **Cyfanswm a wahoddwyd** | **<15 mm** | **%** | **15+ mm** | **%** |
| **Cyfanswm** | **873** | **439** | **50.3** | **390** | **44.7** | **388** | **200** | **51.5** | **160** | **41.2** | **916** | **391** | **42.7** | **462** | **50.4** |
| **Sgrinio Pennaf** | **149** | **64** | **43.0** | **75** | **50.3** | **97** | **50** | **51.5** | **38** | **39.2** | **150** | **61** | **40.7** | **75** | **50.0** |
| **Sgrinio Digwyddiad** | **586** | **315** | **53.8** | **243** | **41.5** | **268** | **141** | **52.6** | **112** | **41.8** | **605** | **271** | **44.8** | **301** | **49.8** |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwahoddiad cyntaf ar gyfer sgrinio rheolaidd | 111 | 46 | 41.4 | 57 | 51.4 | 77 | 39 | 50.6 | 30 | 39.0 | 107 | 44 | 41.1 | 53 | 49.5 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai na fynychodd yn flaenorol | 38 | 18 | 47.4 | 18 | 47.4 | 20 | 11 | 55.0 | 8 | 40.0 | 43 | 17 | 39.5 | 22 | 51.2 |
| Gwahoddiad rheolaidd i fynychwyr blaenorol, sgriniad diwethaf o fewn 5 mlynedd | 546 | 298 | 54.6 | 224 | 41.0 | 242 | 127 | 52.5 | 101 | 41.7 | 544 | 250 | 46.0 | 266 | 48.9 |
| Gwahoddiad rheolaidd i fynychwyr blaenorol, sgriniad diwethaf dros 5 mlynedd yn flaenorol | 40 | 17 | 42.5 | 19 | 47.5 | 26 | 14 | 53.8 | 11 | 42.3 | 61 | 21 | 34.4 | 35 | 57.4 |
| Galw yn ôl yn gynnar | 3 | 2 | 66.7 | 1 | 33.3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 100 | 0 | 0 |
| Hunanatgyfeiriadau/atgyfeiriadau meddygon teulu | 135 | 58 | 43.0 | 71 | 52.6 | 23 | 9 | 39.1 | 10 | 43.5 | 160 | 58 | 36.3 | 86 | 53.8 |

Noder: bob blwyddyn mae nifer o ganserau ymledol na ellir eu mesur

**Tabl 6:** Canserau anymledol/micro-ymledol a ganfuwyd, pob oedran, yn ôl math o wahoddiad/atgyfeirio, 2019-20 i 2021-22

| | 2019-20 | | | 2020-21 | | | 2021-22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Canserau** | **Anymledol neu ficro-ymledol** | **%** | **Canserau** | **Anymledol neu ficro-ymledol** | **%** | **Canserau** | **Anymledol neu ficro-ymledol** | **%** |
| **Cyfanswm** | **1050** | **177** | **16.9** | **484** | **96** | **19.8** | **1121** | **205** | **18.3** |
| **Sgrinio Pennaf** | **186** | **37** | **19.9** | **128** | **31** | **24.2** | **184** | **34** | **18.5** |
| **Sgrinio Digwyddiad** | **712** | **126** | **17.7** | **327** | **59** | **18.0** | **754** | **149** | **19.8** |
| | | | | | | | | | |
| Gwahoddiad cyntaf ar gyfer sgrinio rheolaidd | 144 | 33 | 22.9 | 106 | 29 | 27.4 | 137 | 30 | 21.9 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai na fynychodd yn flaenorol | 42 | 4 | 9.5 | 22 | 2 | 9.1 | 47 | 4 | 8.5 |
| Gwahoddiad rheolaidd i fynychwyr blaenorol, sgriniad diwethaf o fewn 5 mlynedd | 663 | 117 | 17.6 | 296 | 54 | 18.2 | 681 | 137 | 20.1 |
| Gwahoddiad rheolaidd i fynychwyr blaenorol, sgriniad diwethaf dros 5 mlynedd yn flaenorol | 49 | 9 | 18.4 | 31 | 5 | 16.1 | 73 | 12 | 16.4 |
| Galw yn ôl yn gynnar | 4 | 1 | 25.0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Hunanatgyfeiriadau/atgyfeiriadau meddygon teulu | 148 | 13 | 8.8 | 29 | 6 | 20.7 | 182 | 22 | 12.1 |

# 4 Diffiniadau

**Cwmpas**
Canran y menywod sy'n preswylio ac yn gymwys i gael prawf sgrinio'r fron ar adeg benodol, sydd wedi cael eu sgrinio o fewn y tair blynedd diwethaf.

**Galw yn ôl yn gynnar**
Ail wahoddiad i fynd i glinig asesu o fewn cyfnod sy'n llai na'r cyfnod sgrinio arferol (3 blynedd).

**Bwrdd Iechyd**
Y bwrdd iechyd preswyl.

**Mynychwr nad yw wedi mynychu ers dros dair blynedd**
Aeth mwy na thair blynedd heibio ers y sgrinio diwethaf ac mae wedi'i hailwahodd ers hynny.

**Sgrinio digwyddiad**
Sgrinio menywod a sgriniwyd yn flaenorol o fewn rhaglen sgrinio'r fron y GIG.

**Canser ymledol**
Pan fo celloedd canser wedi tyfu drwy leinin dwythellau a llabedynnau'r fron i'r feinwe o amgylch, ac felly'r potensial i ymledu i rannau eraill o'r corff.

**Sgrinio pennaf**
Sgrinio menywod nas sgriniwyd yn flaenorol o fewn rhaglen sgrinio'r fron y GIG.

**Canran y rhai a gafodd eu sgrinio**
Canran y menywod a wahoddwyd yn rheolaidd i gael prawf sgrinio'r fron a dderbyniodd eu gwahoddiad a chael eu sgrinio o fewn chwe mis.

# 5 Tîm cynhyrchu

Cyflogir y tîm cynhyrchu ar gyfer yr adroddiad hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac fe'u rhestrir isod.

| | |
|---|---|
| Dean Phillips | Pennaeth Bron Brawf Cymru |
| Dr Sharon Hillier | Cyfarwyddwr yr Adran Sgrinio |
| Helen Clayton | Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data |
| Guy Stevens | Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data |
| Claire Ellis | Dadansoddwr Gwybodeg a Data |

Gwasanaethau Cyfieithu

| | |
|---|---|
| Rhys George | Cofus Cyf (Cyfieithiad Cymraeg) |